# Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol

## Adroddiad i'r Cyfarfod Llawn o dan Reol Sefydlog 15.9

### Adroddiad i'w drosglwyddo i'r Trydydd Cynulliad - 2003 i 2007

#### 1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol yn un o'r saith pwyllgor sefydlog. Gwneir yr adroddiad hwn o dan Reol Sefydlog 15.9, sy'n ei gwneud yn ofynnol i roi adroddiad i'r Cynulliad Cenedlaethol o bryd i'w gilydd ar y cynnydd a wna o ran cyflawni ei raglen waith. Gwneir yr adroddiad ar wahan i adroddiad blynyddol y Pwyllgor ar gyfer 2006-07, ac mae iddo ddwy ran. Mae'r adran gyntaf yn rhoi trosolwg o flaenoriaethau strategol a gweithgareddau'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol (y Pwyllgor) yn ystod yr Ail Gynulliad. Mae'r ail adran i'w throsglwyddo i'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol olynol yn y Trydydd Cynulliad, gan nodi materion allweddol y bydd y Pwyllgor hwnnw am eu hystyried o bosibl.

1.2 Ceir copiau o adroddiadau, agendau papurau, cofnodion a thrawsysgrifiadau cyfarfodydd ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol.

#### 2. Trosolwg Strategol

#### Cylch gwaith a Chyfrifoldebau

2.1 Nodir cylch gwaith y Pwyllgor yn Rheol Sefydlog 15.1, a restrir isod.

2.2 Bydd Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol, a rhaid iddo gadw llygad:

- Ar berthynas y Cynulliad a rhanbarthau, cenhedloedd eraill a sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd, a'i ddulliau o hysbysu a chynghori'r sefydliadau am anghenion Cymru;
- Ar drefniadau'r Cynulliad ar gyfer cysylltu ag UKREP, a chydag adrannau llywodraeth y Deyrnas Unedig am faterion Ewropeaidd;
- Ar ddulliau a threfn y Cynulliad ar gyfer ystyried dogfennau, materion a chwestiynau sy'n deillio o sefydliadau Ewropeaidd, gan dalu sylw arbennig i'r angen am gysylltu ag Aelod Seneddol sy'n gyfrifol am graffu ar faterion Ewropeaidd sy'n berthnasol i Gymru yn benodol;
- Ar berthynas y Cynulliad a rhanbarthau a chenhedloedd y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd ac ymwneud y Cynulliad a chyrff Ewropeaidd a rhyngwladol.

2.3 Mae'r Prif Weinidog, fel Gweinidog y Cynulliad dros Ewrop yn Aelod o'r Pwyllgor.

2.4 Rhestrir aelodaeth y pwyllgor isod:

| Aelod | Plaid | Etholaeth/Rhanbarth |
|---|---|---|
| Sandy Mewies AC (Cadeirydd) | Llafur | Delyn |
| Nicholas Bourne AC | Ceidwadwyr | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Rosemary Butler AC | Llafur | Gorllewin Casnewydd |
| Jeff Cuthbert AC | Llafur | Caerffili |
| Mike German AC | Democrat Rhyddfrydol | Dwyrain De Cymru |
| Christine Gwyther AC | Llafur | Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro |
| Ieuan Wyn Jones AC | Plaid Cymru | Ynys Mon |
| Jonathan Morgan AC | Ceidwadwyr | Canol De Cymru |
| Rhodri Morgan AC | Llafur | Gorllewin Caerdydd |
| Rhodri Glyn Thomas AC | Plaid Cymru | Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr |

2.5 Estynnodd y Pwyllgor wahoddiadau sefydlog i'r canlynol:

- Jill Evans ASE
- Jonathan Evans ASE
- Glenys Kinnock ASE
- Eluned Morgan ASE
- Janet Davies AC (Aelod o Bwyllgor y Rhanbarthau)
- Rose D’Sa (Aelod o'r Pwyllgor Ewropeaidd a Chymdeithasol)
- Andy Klom (Pennaeth Swyddfa'r Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru)

## Gwaith a Chyflawniadau

2.6 Cyfarfu'r Pwyllgor 30 o weithiau yn ystod yr Ail Gynulliad. Fel rhan o'i ymrwymiad i feithrin perthynas a rhanbarthau, cenhedloedd a sefydliadau eraill yr Undeb Ewropeaidd a rhanbarthau a chenhedloedd y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd, cynhaliodd y Pwyllgor drafodaethau gydag Aelodau o Senedd Ewrop dros Gymru, y gwahanol Gomisiynwyr Ewropeaidd ac uwch swyddogion o Senedd Ewrop a Phwyllgor y Rhanbarthau.

2.7 Pennodd y Pwyllgor ei flaenoriaethau strategol ym mis Mehefin 2003 a datblygodd y rhain i gynnwys: blaenoriaethau strategol gwahanol wledydd, gan gynnwys y DU, a fu'n llywydd ar yr UE yn ystod y cyfnod hwn; y confensiwn ar ddyfodol Ewrop a'r Cytuniad Cyfansoddiadol; y cynigion a'r cyd-drafodaethau ar y gwahanol raglenni ar gyfer cronfeydd strwythurol yr UE o 2007-2013 a Fframwaith Cyfeirio Strategol Cenedlaethol y DU; cyllideb yr UE am y cyfnod rhwng 2007 a 2013; Strategaeth Lisboa ar gyfer twf economaidd; mapiau cymorth rhanbarthol 2007-2013 (adolygiad o reolau cymorth gwladwriaethol); strategaeth cysylltiadau allanol Llywodraeth Cynulliad Cymru;

amryw gyfarwyddebau'r UE gan gynnwys y gyfarwyddeb gwasanaethau a'r gyfarwyddeb oriau gwaith ddiwygiedig; a materion yn ymwneud ag egwyddor 'sybsidiaredd' – sef, y dylai penderfyniadau gael eu gwneud mor agos ? phosibl at ddinasyddion, ac mai dim ond pan fyddai’n fwy effeithiol cymryd camau ar lefel yr UE yn hytrach nag ar lefel genedlaethol, rhanbarthol neu leol y gellir cyfiawnhau gwneud hynny.

2.8 At hynny, cafodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf gan y Prif Weinidog, fel y Gweinidog dros Ewrop, ac aelodau o Bwyllgor y Rhanbarthau.

2.9 Er mwyn ategu'r flaenraglen waith strategol, cadwodd y Pwyllgor at flaenraglen waith fanwl, a gafodd ei hadolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod busnes y Pwyllgor yn canolbwyntio ar faterion cyfredol.

2.10 Amlinellir isod brif gyflawniadau'r Pwyllgor yn ystod yr Ail Gynulliad:

2.11 Ym mis Tachwedd 2004, cytunodd y Pwyllgor i fynd ati i graffu ar ddeddfwriaeth a dogfennau polisi'r UE mewn ffordd newydd a mwy strategol. Cymeradwywyd hyn gan Banel y Cadeiryddion ac fe'i mabwysiadwyd hefyd gan y pwyllgorau pwnc. Yn y gorffennol, roedd pob pwyllgor wedi cael rhestr fisol o ddogfennau perthnasol yr UE a adneuwyd gyda Senedd y DU. Eir ati bellach drwy ganolbwyntio ar raglen waith y Comisiwn Ewropeaidd, a gyhoeddir ar ddechrau bob blwyddyn. Roedd pob pwyllgor yn ystyried y rhan honno o raglen waith y CE a oedd yn berthnasol i'w gylch gwaith gan ddewis eitemau i fonitro a chraffu arnynt yn ystod y flwyddyn. Dewisodd y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol ei eitemau ei hun gan gadw llygad ar waith y pwyllgorau eraill hefyd.

2.12 Aolygwyd y dull gweithredu newydd hwn a'r protocol ar gyfer gwaith craffu a chamau gweithredu gan bwyllgorau ar bolisiaur UE (a fabwysiadwyd gan Banel y Cadeiryddion ym mis Ebrill 2005) ym mis Tachwedd 2005 gan y Pwyllgor hwn. Gwnaethom ychydig o argymhellion i gryfhau'r system, ac fe'u mabwysiadwyd wedyn gan Banel y Cadeiryddion. Croesawyd y dull gweithredu newydd gan Gadeiryddion y Pwyllgorau, dull a oedd, yn eu tyb hwy, yn llawer mwy effeithiol o ran monitro a chraffu ar eitemau o bwys i Gymru.

2.13 Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn, mae'r Pwyllgor wedi mynegi ei farn ar nifer o faterion, gan gynnwys y rhai a restrir ym mharagraff 2.7, i'r rhanddeiliaid perthnasol; gan gynnwys sefydliadau'r UE, Llywodraeth Cynulliad Cymru a Llywodraeth y DU a'r Senedd.

2.14 Yn ystod 2006, cynhaliodd y Pwyllgor adolygiad o Addysg Dinasyddiaeth Ewropeaidd a Byd-eang; gan gymryd tystiolaeth ysgrifenedig a llafar gan sefydliadau perthnasol a phobl ifanc. Bydd y Pwyllgor yn cyhoeddi ei adroddiad ym mis Mawrth 2007.

2.15 Ym mis Tachwedd 2003, ymwelodd y Pwyllgor a brwsel gan gynnal cyfarfod ffurfiol. Roedd hwn yn cynnwys cyflwyniadau gan Jill Evans ASE ac uwch swyddogion o'r Comisiwn Ewropeaidd, ynglyn ?asnach ryngwladol a pholisi rhanbarthol. Hefyd ystyriodd y Pwyllgor gyfansoddiad drafft yr UE gyda Phennaeth Materion yr UE dros Lywodraeth Ranbarthol Fflandrys, ac uwch swyddog o Gynrychiolaeth Sefydlog y DU i'r UE.

2.16 Ym mis Chwefror 2006, ymwelodd y Pwyllgor ?rwsel eto gan gyfarfod a'r Comisiynydd Joe Borg a'r Comisiynydd Danuta Hubner er mwyn trafod datblygu polisi morwrol i'r UE a chronfeydd strwythurol yr UE yn y drefn honno. Cyfarfu'r Aelodau ag uwch swyddogion o Senedd Ewrop a Chyfarwyddwr Pwyllgor y Rhanbarthau hefyd, a thrafodwyd gyda hwy sut y gallai Cymru weithio'n agosach gyda Phwyllgor y Rhanbarthau a chynulliadau rhanbarthol Ewropeaidd eraill. Yn ystod yr ymweliad, cynhaliwyd cinio gan y Cadeirydd yn Nhy Cymru ac yn bresennol roedd y Comisiynydd Hubner a swyddogion o'r Comisiwn Ewropeaidd, Senedd Ewrop, Cynrychiolaeth Sefydlog y DU i'r EU, Ty Cymru a rhanddeiliaid eraill a leolir ym Mrwsel.

2.17 Roedd Aelodau'r Pwyllgor wedi cyfarfod a'r Comisiynydd Hubner o'r blaen pan ymwelodd a Chymru ym mis Medi 2005, pan drafodwyd goblygiadau'r cyd-drafodaethau ar ddyfodol cyllideb yr UE a rhaglenni cronfeydd strwythurol Cymru ar gyfer 2007-2013.

2.18 Cafodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiwedaraf am flaenoriaethau llywodraethau Awstria a'r Ffindir yn ystod eu llywyddiaeth ar yr UE, drwy eu llysgenhadon yn y Deyrnas Unedig. Pan oedd y Deyrnas Unedig yn llywydd ar yr UE, cafodd y Pwyllgor wybodaeth yn rheolaidd gan y Prif Weinidog ac uwch swyddogion yn Whitehall.

2.19 Gwahoddwyd y Pwyllgor i gymryd rhan yn rhwydwaith monitro sybsidiaredd peilot Pwyllgor y Rhanbarthau. Mae Pwyllgor y Rhanbarthau yn awyddus i hwyluso ffyrdd o gymhwyso egwyddorion sybsidiaredd a chymesuredd yn well yn yr UE. Cyflwynodd y Pwyllgor ei farn ar oblygiadau rhai cynigion deddfwriaethol o ran sybsidiaredd a chymesuredd ar gam cynnar. Yn y ffordd hon, helpwyd Pwyllgor y Rhanbarthau i wella ei ymgymghori wrth iddo yntau baratoi ei farn ar y cynigion hyn. Mae'r rhwydwaith hefyd yn helpu i atgyfnerthu'r cysylltiadau rhwng sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd ac awdurdodau lleol a rhanbarthol. Cynhaliwyd y cam cyntaf o'r prawf ym mis Hydref 2005, a'r ail gam ym mis Hydref 2006. Cymerodd y Pwyllgor ran yn y naill a'r llall. Bydd Pwyllgor y Rhanbarthau yn cyhoeddi adroddiad ar ganlyniad yr ail brosiect prawf yn ystod gwanwyn 2007.

2.20 Cafodd y Pwyllgor adroddiadau rheolaidd gan Lywodraeth y Cynulliad ac Aelodau Cynulliad eraill ar weithgareddau sefydliadau Ewropeaidd a Rhyngwladol y mae'r Cynulliad yn aelod ohonynt: CALRE, REGLEG, Cyngor Ewrop, y Corff Rhyngseneddol Prydeinig-Gwyddelig (BIIPB) a Chymdeithas Seneddol y Gymanwlad (CPA).

2.21 Mae'r Pwyllgor wedi meithrin cysylltiadau a nifer o sefydliadau yn y sector gwirfoddol; gan gynnwys y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB), Oxfam Cymru a Cynghor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. Rhoddwyd cyflwyniadau diddorol iawn i ni gan Gynghrair 'Rhown Derfyn ar Dlodi' a'r sefydliad a'i holynodd – 'Grwp Asiantaethau Tramor Cymru'.

2.22 Gweithiodd y Pwyllgor yn agos gyda'r Cyngor Prydeinig, a roddodd gyflwyniadau ar nifer o faterion; gan gynnwys amlinelliad o'i waith ar ddatblygu cysylltiadau cryfach rhwng y DU a gwledydd eraill; 'prosiect y cyfryngau' Cyngor Prydeinig Cymru (a oedd yn cynnwys trafodaethau gyda newyddiadurwyr ifanc o ddwsin o wledydd yn Ewrop a thu hwnt, er mwyn eu helpu i ddeall gwaith Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn well); cynhadledd 'Menywod mewn Gwleidyddiaeth' a gynhaliwyd yng Nghaerdydd (yn ystod y gynhadledd hon bu nifer o gynadleddwyr o bob cwr o'r byd yn son wrth y Pwyllgor am eu profiadau a'r rhwystrau y bu'n rhaid iddynt eu goresgyn); a chyfraniad

diddorol iawn i'n hymchwiliad i Addysg Dinasyddiaeth Ewropeaidd a Byd-eang.

2.23 Ym mis Gorffennaf 2005, cynhaliodd y Pwyllgor gyfarfod ffurfiol yn Llangollen, a gynhwysai gyflwyniad gan 'brosiect y cyfryngau' Cyngor Prydeinig Cymru a thrafodaeth gyda newyddiadurwyr ifanc, y cyfeirir ati ym mharagraff 2.22. Yna cynhaliwyd derbyniad gan y Cadeirydd, i arweinwyr y gymuned leol ym Mhafiliwn y Cynulliad Cenedlaethol ar y maes yn ystod yr Eisteddfod Gydwladol.

2.24 Mae'r Pwyllgor wedi meithrin perthynas waith ?wyddogion ac aelodau etholedig o Bwyllgorau Craffu Ewropeaidd eraill yn y DU; Ty’r Cyffredin, Ty’r Arglwyddi a Senedd yr Alban.

2.25 Ym mis Ionawr 2005, cynhaliodd y Cadeirydd gyfarfod ?hadeiryddion Pwyllgorau Ewropeaidd y DU – gan gynnwys Cadeiryddion y Pwyllgorau Ewropeaidd o Dy’r Cyffredin, Ty’r Arglwyddi, Senedd yr Alban, Cynulliad Gogledd Iwerddon a Chynulliad Cenedlaethol Cymru. Cynhaliwyd y cyfarfod yng Nghardydd a chanolbwyntiodd ar faterion o ddiddordeb cyffredin; roedd yn gyfarfod defnyddiol iawn ym marn y rhai a fu'n bresennol. Cynhaliwyd cyfarfod arall yn Nhy’r Arglwyddi ym mis Chwefror 2007.

2.26 Ar ?'r Senedd newydd agor ym mis Mawrth 2006, mae'r Pwyllgor wedi defnyddio technoleg fideo, yn ystod cyfarfodydd ffurfiol y Pwyllgor, er mwyn cael trafodaeth rhwng y Pwyllgor ac Aelodau o Senedd Ewrop dros Gymru - Jill Evans ASE ac Eluned Morgan ASE; a hefyd y Comisiynydd Margot Wallstrom, y Comisiynydd dros Gysylltiadau Sefydliadol a Strategaeth Gyfathrebu. Mae hyn wedi ychwanegu at y ddadl ar faterion yn ymwneud a'r UE yn y Pwyllgor ac wedi helpu i bontio rhwng Brwsel a'r Cynulliad.

2.27 Mae'r Pwyllgor wedi meithrin perthynas waith agos ?wyddfa Brwsel Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad, er mwyn datblygu blaenraglenni gwaith strategol a manwl. Mae'r Pwyllgor yn cael gwybodaeth yn rheolaidd gan swyddfa Brwsel a Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau. Mae'r Briff Ewropeaidd, a roddir i'r Aelodau cyn pob cyfarfod, yn cynnwys adran yn crynhoi gwaith diweddar gan bwyllgorau eraill ar faterion yn ymwneud a'r UE. Yn y modd hwn, mae'r Pwyllgor yn cael trosolwg o waith craffu perthnasol a gweithgarwch arall.

2.28 Yn ei gyfarfod olaf ar 28 Chwefror, cafodd y pwyllgor y pleser o groesawu Ei Ardderchowgrwydd Robert Holmes Tuttle, Llysgennad Unol Daleithiau America i Lys Sant Iago. Rhoddodd y Llysgennad anerchiad i'r pwyllgor a chynhaliwyd trafodaeth fer.

2.29 Un datblygiad diweddar fu cynhyrchu cylchlythyr electronig o'r enw 'Europe Matters' a gyhoeddir o dan enw Sandy Mewies AC (Cadeirydd) ac a gynhyrchir gan swyddfa Brwsel Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad. Y nod yw hysbysu'r rhai sydd ?iddordeb mewn materion Ewropeaidd yng Nghymru o'r hyn a drafodir ar y pryd ym Mhwyllgorau'r Cynulliad. Mae'n crynhoi'r materion sydd i'w hystyried gan y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol a hefyd weithgarwch perthnasol gan bwyllgorau eraill. Caiff ei ddosbarthu i bob Aelod o'r Cynulliad, rhai aelodau o staff y Cynulliad a rhanddeiliaid allanol. Mae wedi cael derbyniad da ac mae'r rhestr ddosbarthu yn cynyddu.

## 3. yr Hyn Sydd i'w Drosglwyddo i'r Pwyllgor Olynol

## Swyddogaethau posibl y Pwyllgor olynol

3.1 Yn ei gyfarfod ar 25 Hydref 206, gwnaeth y Pwyllgor yr awgrym canlynol ynglyn a swyddogaethau posibl y Pwyllgor olynol yn ei gyngor i'r Pwyllgor Rheolau Sefydlog.

3.2 Ystyried:

- Deddfwriaeth a chynigion polisi'r UE.
- Unrhyw fater arall ynglyn a'r UE sydd wedi'i ddatganoli i Gynulliad Cenedlaethol Cymru neu sydd o ddiddordeb arbennig i Aelodau.
- Perthynas Llywodraeth Cynulliad Cymru a sefydliadau'r UE a llywodraeth y DU ar faterion Ewropeaidd a rhyngwladol.
- Polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru ynglyn a materion allanol; ei chysylltiadau a chenhedloedd a rhanbarthau eraill; a'i haelodaeth o sefydliadau Ewropeaidd neu ryngwladol eraill.
- Y ffordd y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithredu, yn trosi ac yn gorfodi deddfwriaeth a pholisiau'r UE.
- Dulliau a gweithdrefnau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer ystyried polis? a deddfwriaeth yr UE a'i gysylltiadau allanol.
- Perthynas Cynulliad Cenedlaethol Cymru ?efydliadau a chyrff ymgynghori yr UE a chyrff eraill sy'n ymdrin a materion yr UE a materion rhyngwladol.
- Y gyllideb sy'n ymwneud a materion Ewropeaidd ac allanol.

## Materion strategol

3.3 Yn ystod y Trydydd Cynulliad, mae'r Pwyllgor yn argymell:

- y dylai agendau yn y dyfodol ganolbwyntio ar lai o eitemau - y rhai a allai gael effaith sylweddol ar Gymru - fel y bydd modd ysyried rhai eitemau dros nifer o gyfarfodyddd er mwyn cael ymchwiliadau mwy trylwyr.
- y dylai'r Pwyllgor ehangu a gwella cyfranogiad gan randdeiliaid allanol ac ymgynghori a hwy wrth ymgymryd a'r waith er mwyn atgyfnerthu rol Pwyllgor. Gallai defnydd helaethach o e-ddemocratiaeth a thechnoleg cynadledda fideo fod o gymorth yn hyn o beth.
- y gallai'r Pwyllgor hefyd ystyried chwarae rhan fwy gweithredol yn y gwaith o ddatblygu dialog ar faterion Ewropeaidd a rhyngwladol yng Nghymru gyda'r nod o helpu dinasyddion i ddeall y materion hyn yn well ac yn ei dro wella effeithiolrwydd rol y Pwyllgor.
- y dylai aelodau a swyddogion feithrin cysylltiadau a phwyllgorau craffu Ewropeaidd eraill a sefydliadau'r UE, a chwilio am gyfleoedd i gydweithio ar broseictau penodol. Dylai'r Pwyllgor geisio annog Cadeiryddion Pwyllgorau Ewropeaidd y DU i gynnal cyfarfodydd mwy rheolaidd (gweler paragraff 2.25) – er mwyn ystyried materion o ddiddordeb cyffredin.
- Ar hyn o bryd, mae dyletswydd ar bob Pwyllgor pwnc a'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal i graffu ar gynigion deddfwriaethol a pholisi'r UE. Felly mae'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol wedi canolbwyntio ar faterion mwy strategol, materion sy'n drawsbynciol o ran natur ac wedi osgoi dyblygu gwaith craffu a wneir yn y pwyllgorau pwnc. Yng ngoleuni strwythur newydd

y Pwyllgorau a ddisgwylir yn y Trydydd Cynulliad a'u priod gyfrifoldebau, efallai y bydd y Pwyllgor olynol am ystyried a fydd y ffordd y caiff gwaith craffu Ewropeaidd ei brif ffrydio yn rhaglenni gwaith y pwyllgorau pwnc yn parhau i fod yn ymarferol o gofio pwysau'r gwaith domestig yn y Trydydd Cynulliad. Dylai'r Pwyllgor adolygu sut orau y gall Pwyllgorau'r Cynulliad fonitro a chraffu ar faterion yn ymwneud a'r UE ac ailystyried y protocol ar gyfer gwaith craffu a gweithredu pwyllgorau ar bolisaiu'r UE.
- Mae'n bwysig dylanwadu ar lunio polisiau a deddfwriaeth ar gam cynnar yn y broses. Dylai'r Pwyllgor ddefnyddio adnoddau ac arbenigedd Swyddfa Brwsel Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad, er mwyn rhoi: 'rhybudd cynnar' o fentrau ac ymgynghoriadau ynglyn a pholisiau'r UE; briffio rheolaidd ar yr UE a briffio sy'n benodol i'r agenda, wedi'i deilwra at waith y Pwyllgor; camau gweithredu dilynol gyda swyddogion a gwleidyddion perthnasol yng ngwahanol sefydliadau'r UE er mwyn helpu i godi proffil y Pwyllgor.

## Materion Penodol

3.4 Awgryma'r Pwyllgor y dylid ymgorffori'r materion a ganlyn yn y flaenraglen waith:

- Craffu ar waith Llywodraeth Cynulliad Cymru wrth iddi ddatblygu a gweithredu polisiau perthnasol, gan gynnwys y strategaeth ar gysylltiadau allanol.
- Rhaglen Waith y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer 2007(eitemau penodol i'w dewis)
- Gwaith cyrff yr UE a chyrff rhyngwladol; er enghraifft, Rhanbarthau Ewropeaidd sydd a Phwerau Deddfu (REG LEG a CALRE), Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad a'r Cyngor Prydeinig.
- Blaenoriaethau gwledydd sydd a Llywyddiaeth yr UE, drwy eu llysgenhadon i'r DU.

## Materion trawsbynciol

3.5 Awgryma'r Pwyllgor y dylid cadw golwg ar y materion trawsbynciol a ganlyn:

- Strategaeth Lisboa, gan fod hon yn bwysig o ran cyflogaeth a chreu cyfoeth yng Nghymru.
- Argymhellion yn adroddiad y Pwyllgor ar Addysg Dinasyddiaeth Ewropeaidd a Byd-eang.
- Polisi Cyfathrebu'r DU sydd wrthi'n datblygu a'i oblygiadau a'i gyfleoedd i'r Cynulliad.
- Dyfodol Cytuniad Cyfansoddiadol yr UE a'r goblygiadau i gynulliadau rhanbarthol sydd a phwerau deddfu.
- Yr adolygiad eang o flaenoriaethau cyllidebol yr UE yn y dyfodol a'r goblygiadau i Gymru.
- Monitro'r ffordd y caiff egwyddor sybsidiaredd a chymesuredd ei chymhwyso; cydweithio a Phwyllgorau Ewropeaidd seneddol y DU a Phwyllgor y Rhanbarthau.